



Nifer y busnesau garddwriaeth
sydd wedi cofrestru:



Rhwydwaith Arddangos

Gardd Fasnachol Glebelands: Gwerthuso buddion hof olwynion Terrateck â Bio-ddisgiau i reoli chwyn mewn llysiau

Mae Gardd Fasnachol Glebelands yn fenter organig 4 hectar ger Aberteifi, ac mae'n cyflenwi llysiau ar gyfer siop fferm ar y safle, ac ar gyfer bwytai a siopau lleol a busnesau eraill. Mae'r cynydau sy'n cael eu tyfu yn cynnwys llysiau gwyrdd y gwanwyn, pak choi, sbigoglys, brocoli, dail salad, ffa, cennin, blodfresych, ffenigl, courgettes, letys, gwrdiau, ciwcymbrau a pherlysiau.

Caiff yr holl gynnyrch ei dyfu yn unol â safonau Cymdeithas y Pridd gan ddefnyddio technegau sydd wedi ennill eu plwyf, er enghraifft, compostio ar y safle, cylchdroi cynydau a chnydau gwrtaithe gwyrdd i gynnal ffrwythlondeb y pridd ac iechyd planhigion. Mae'r busnes yn cyflogi deg o weithwyr yn ystod y flwyddyn, ac mae hynny'n gyfystyr â phum gweithiwr amser llawn.

Mae rheoli chwyn yn her ddiddiwedd i fusnesau tyfu llysiau bach a chanolig, ac yn aml iawn, bydd hynny'n dibynnu ar dechnegau hofio â llaw sy'n gofyn am gryn dipyn o amser a llafur. Ar hyn o bryd, mae'r busnes yn defnyddio dwy hof olwynion Glaser sy'n cael eu defnyddio ar y cyd â hofio â llaw, ond byddai'n elwa o archwilio sut i leihau hofio â llaw neu ddiddymu hynny'n llwyr.

Bydd y prosiect hwn yn gwerthuso buddio hof olwynion Terrateck sy'n cael ei chynhyrchu yn Ffrainc ac sydd â Bio-ddisgiau wedi'u gosod arni; mae'n ymddangos fod y teclyn hwn yn mynd i'r afael â nifer o broblemau arwyddocaol ar gyfer tyfwyr llai:

- Heriau trin yn effeithiol o amgylch cynydau wedi'u hau/priddo ger planhigion bychan wedi'u trawsblannu
- Problemau defnyddio offer ar dractor yn achos tir sydd ar lethr neu'n anwastad
- Y prinder offer garddwriaethol ar gyfer tyfwyr bychan a chanolig (a phrinder rhai wedi'u cynhyrchu yn y DU)
- Cymhariaeth â'r hof olwynion Glaser lai adnabyddus (o'r Swistir) a modelau hŷn tebyg sy'n dal i gael eu defnyddio'n helaeth..



Ffigwr 2: Adam a Lesley York gyda'r hof Terrateck a Delana Davies, Swyddog Technegol Cyswllt Ffermio


Bydd yr hof olwynion yn cael ei threialu'n benodol gyda chennin wedi'u trawsblannu yn Glebelands. Fel arfer, caiff 10,000 o blanhigion eu plannu, a dilyr hynny gan hofio â llaw a hofio gan ddefnyddio hof olwynion Glaser â thrin tir â pheiriant â dannedd sbrings, a gwneir hynny oll sawl gwaith. Gallai defnyddio hof olwynion Terrateck arwain at leihad sylweddol yn y gwaith hofio â llaw.

Yn ychwanegol, bydd sicrhau cnwd glanach yn gynt yn golygu y gellir hau rhygwellt dan y cnwd yn gynt. Mae hyn yn ddull pwysig o amddiffyn y pridd ac mae angen ei amseru'n fanwl gywir i leihau cystadleuaeth â'r cennin ifanc, ond dylid ceisio anelu i sicrhau twf digonol i amddiffyn pridd rhag tywydd y gaeaf, yn enwedig erydiad pridd sy'n gysylltiedig ag achosion o lawiad dwys..

Cae Derw: Arallgyfeirio i Arddwriaeth a Sefydlu Menter Casglu eich Hun gan ddefnyddio dull dim turio

Bydd yr astudiaeth yma yn safle Cae Derw, ger Rhuthun, yn dilyn y broses o ddatblygu prosiect arallgyfeirio garddwriaeth ar 1.2 erw o dir a ddefnyddiwyd yn flaenorol i dyfu cynydau ar fferm gymysg lle cedwir hefyd ddiadell o ddefaid. Rhennir y cae yn unedau ar gyfer ffrwythau meddal a ffrwythau coed, rhesi llysiau, gwelyau blodau a phwmpenni casglu eich hun. Y prif amcan yw tyfu mor naturiol ac mor ecolegol â phosibl, gan ddefnyddio adnoddau lleol megis compost o Rhuthun a thail buarth o'r fferm drws nesaf. Y bwriad yw gwerthu'n uniongyrchol i'r gymuned leol drwy gasgliadau bocsys llysiau, drwy siop y pentref, y cigydd a'r swyddfa bost.

Bydd y busnes yn defnyddio'r dull dim turio sy'n amharu ychydig iawn ar fywyd y pridd, gan ganiatáu i ficro-organebau, pryfed genwair, a ffwng ffynnu. Yn ogystal â hybu gwell canlyniadau iechyd y pridd, mae hyn hefyd yn helpu i atal chwyn drwy beidio â dod â rhagor o hadau chwyn i'r golwg i egino. Yn ei hanfod, mae'r dull dim turio yn dda o ran cyflymdra, rhwyddineb a chynhyrchiant. Caiff gwllân hefyd ei dreialu fel dull o atal chwyn. Gwelwyd bod gwllân yn effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio mewn cymysgedd fel compost neu domwellt. Mae'n gynnyrch cynaliadwy, adnewyddadwy ac yn ddewis amgylcheddol-gynaliadwy yn lle mawn.



Ffigwr 1. Mefus dan do yn dechrau cynhyrchu ffrwythau ym mis Mai 2021


Mae'r mefus cyntaf wedi dechrau dwyn ffrwyth yn y twnnel plastig. Fel arbrawf, plannwyd hanner ohonynt yn yr awyr agored a hanner dan do; mae'r mefus a blannwyd yn yr awyr agored yn siomedig, ond mae'r rhai o dan do yn ffynnu.

Mae'r safle'n cael ei gadw'n daclus trwy strimio'n wythnosol i gadw'r ardaloedd a'r llwybrau cyfagos yn glir. Mae cynlluniau'n dechrau dod at ei gilydd er mwyn agor ar y penwythnosau ym mis Awst, lle bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i'r safle i ddewis a/neu bigo eu blodau eu hunain..

Erw Fawr: Porth LoRaWAN yn gobeithio cysylltu tymheredd y pridd a'r aer gyda chyfradd dyfu glaswellt

Gosodwyd synhwyrdd LoRaWAN (Rhwydwaith Mynediad Diwifr Ystod Isel) ar Erw Fawr i gasglu data tymheredd pridd i gymharu hwnnw â chyfraddau tyfu glaswellt yn ystod tymor pori 2021. Wedi ei osod yn ôl yn Hydref 2020, mae synhwyrdd bach â batri wnaiff bara pum mlynedd wedi bod yn anfon data tymheredd bob 15 munud trwy borth LoRaWAN a osodwyd yn un o'r padogau sy'n cael eu mesur yn gyson â mesurydd plât. Mae'r data hwn yn cael ei ddehongli ar fwrdd rheoli a wnaed i'r diben fel cyfres o graffiau a thafleuni data y gellir eu lawrlwytho. Gall trothwyon data gael eu gosod gyda swyddogaeth larwm ar ddyfais symudol i hysbysu'r ffermwr o unrhyw beth sydd angen ei wneud, fel amseru gwrtaithe yn gywir neu addasrwydd cyflwr y pridd i chwalo tail.

Bydd gwaith parhaus gyda synhwyrddion ar Erw Fawr yn cyfuno'r holl ddata sydd ar gael i gynorthwyo i reoli ac amseru chwalo gwrtaithe a slyri i sicrhau'r tyfiant glaswellt gorau.



Ffigwr 3. Data tymheredd pridd ac aer gyda mesuriadau tyfiant glaswellt wythnosol

Gwasanaeth Cyngori



Derbyniodd 53 o unigolion gymorth drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 130 grŵp gyda chyfanswm o 384 gymorth drwy Gategoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ynglŷn â darpariaeth y gwasanaeth cyngori hwn:

“Canlyniadau diddorol iawn o ganlyniad i samplu pridd ar draws y fferm. Bydd y canlyniadau'n llywio ein defnydd o faetholion at y dyfodol. Rydw i wedi rhoi tic yn y blwch ar gyfer cyngor pellach, ac mae hyn yn cyfeirio at 2/3 mlynedd yn y dyfodol pan ddylid samplu eto. Hefyd, mae gwybodaeth ddilysol ar yr un pŵnc yn adlewyrchu fy nymuniad i ddysgu mwy ac i wella rheolaeth pridd ar y safle. Mae'r broses wedi bod yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol iawn. Mae'r ymgynghorydd wedi bod yn wych ac wedi cymryd amser i egluro'r canlyniadau a'u goblygiadau yn ystod galwad fideo.”

“O ganlyniad i brofi a chyflwyno'r argymhellion, byddwn yn arbed arian trwy fwydo'r hyn sydd ei angen ar y tir, a pheidio â gorfod dyfalu, felly byddwn ni'n cynyddu cynhyrchiant ac elw.”

Grwpiau Trafod



Grŵp Âr Sir Benfro

Dechreuodd Simon trwy ddangos lluniau o ddôl gwair fechan nad oedd wedi cael unrhyw fewnbwn ers nifer o flynyddoedd ond sy'n dal i gynhyrchu cnwd da o wair bob blwyddyn. Eglurodd fod hyn yn rhoi hyder iddo fod y pridd yn unig yn gallu darparu llawer o'r hyn y mae'r cnwd ei angen os bydd yn cael ei ofalu amdano'n ddigonol. Yna, dangosodd Simon ddau lun yn cymharu proffil y pridd ar ei gaeau â'r yn 2005 a 2017. Roedd gwahaniaeth mawr yn y priddoedd, gyda phridd 2017 yn edrych yn llawer iachach gyda gwell strwythur, mwy o uwchbridd, a mwy o gynnwys organig. Pwysleisiodd Simon hefyd y gwahaniaethau a welwyd wrth reoli'r tir, megis gwell draenio a mwy o amser i allu cael mynediad i'r tir oherwydd gwell draeniad.

Yn ystod y cyfarfod, nododd Simon hefyd rai o egwyddorion sylfaenol y system ddim turio y mae'n ei defnyddio, gan gynnwys y canlynol:

- Dim trin
- Haneru faint o nitrogen (N) a ddefnyddir trwy newid cnydau e.e. codlysiau, llin a chnydau'r gwanwyn
- Heb ddefnyddio ffosfforws (P) a photasiwm (K) ers 20 mlynedd
- Lleihau cemegau lle bo hynny'n bosibl
- Cnydau mewnbwn isel
- Ychwanegu compost cartref

Yna, aeth y siaradwr gwadd ymlaen i drafod:

- Defnyddio compost ar ei system ffermio, sut mae'n gwneud hyn a sut mae iechyd y pridd yn elwa
- Technegau ac offer drilio, yn enwedig cyfleoedd i ddrilio'n uniongyrchol gan ddefnyddio'r dril dannedd a'r dril disg
- Pwysigrwydd draenio o fewn ei system ac o safbwynt iechyd y pridd
- Cymhariaeth o gostau peiriannau, costau mewnbwnau, cyfanswm costau ac elw net ar gyfer systemau sero N, dim turio a chonfensiynol.

Gweminarau



CYNHALIWDYD

18 GWEMINAR gyda



454 OWYLLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- Gwerth coed a gwrychoedd i reoli glaswelltir a da byw
- Rheoliadau Llygredd Amaethyddol –beth sydd yn newid?.

EIP



22 O BROSIECTAU WEDI'U CYMERADWYO YN GWEITHIO GYDA



65 FFERMWR A CHOEDWIGWR



Archwiliad o botensial ymarferol ac ariannol tyfu asbaragws yn organig ar ddau safle yn ne Cymru

Roedd y tyfwyr yn awyddus i archwilio'r potensial ar gyfer asbaragws organig gan ei fod yn gallu gwerthu am bris da, mae'n gynnwys deniadol ar gyfer gwerthiant wrth giât y fferm ac mae'n llenwi'r bwch rhwng mis Ebrill a Mehefin pan fo ychydig iawn o gnydau eraill yn barod. Fodd bynnag, mae'r cnwd yn cyflwyno ambell i her gan fod costau sefydlu'n uchel ac nad yw'r cnwd yn cystadlu'n dda gyda chwyn. Ychydig iawn o ddata meincnodi sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth i dyfwyr ynglŷn â'i botensial, felly nod y prosiect hwn oedd mynd i'r afael â rhai o'r bylchau hyn.

Rhoddodd y prosiect gyfle i'r tyfwyr ddysgu am sefydlu'r cnwd, agronomeg, cynaeafu a marchnata, gan ddangos bod y cnwd yn gallu gwneud cyfraniad pwysig i werthiant y fferm yn y gwanwyn a dechrau'r haf os mae'n cael ei reoli'n briodol.

Opsiynau marchnata: Siop fferm, blychau llysiâu lleol, marchnadoedd ffermwyr a chyfanwerthu.

Pris fesul kilo: £9 – £18/kg gan ddibynnu ar ansawdd, amser y flwyddyn ac argaeledd.

Problemau posibl:

- Argaeledd llafur medrus ar gyfer plannu, chwynnu a chynaeafu
- Gofynion uchel o ran llafur gan ei fod yn anodd awtomeiddio'r broses
- Cynnwys anghyson o flwyddyn i flwyddyn gan ddibynnu ar y tywydd a phlâu, ac mae'r cnwd yn agored i dywydd eithafol
- Blas a meddalwch hefyd yn cael eu heffeithio gan y tywydd

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

NEWID YN YR HINSAWDD A RHEOLI TIR



DIOGELWCH AR Y FFERM – TRYCIAU CODI TELESGOPIG



DIOGELWCH PLALADDWYR



TECHNOLEG MANWL GYWIR MEWN AMAETHYDDIAETH



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cwrs	Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Tryc codi telesgopig ar gyfer tir garw	17
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thraws-lifio	10
ATV gan gynnwys llwythi ac offer sy'n cael ei lusgo (Eistedd arno)	7
Rheoli ar gyfer Asesu a Gwella Glaswelltir – mesur gyda mesurydd plât	5
Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel PA1 a PA2	7